


CYNGOR TREF PORTHMADOG



Cofnodion Cyfarfod Arbennig o Bwyllgorau Cyllid/Datblygu ac Eiddo 22/10/20

Presennol :- Cynghorwyr : Gwilym Jones (Cadeirydd) Ian Jones, Aled Griffiths, Selwyn Griffiths, Simon Brooks
Marian Roberts (Clerc)

1. Ymddiheuriadau :- Cyngh. Jason Humphreys, Cyngh. Nia Jeffreys

2. Coed Nadolig

Derbyniwyd “ quote” am 4 coeden Nadolig gan Glasfryn eleni fel a ganlyn :

2 x goeden 15 troedfedd
1 x goeden 18 troedfedd
1 x goeden 25 troedfedd = £670.80 + £150.00 am gludiant = £820.80

Penderfynwyd archebu'r coed am £820.80.

3. Goleuadau Nadolig

Mae pwyllgor Caru Port wedi cytuno i gyfrannu £3,200.00 tuag at gostau goleuadau Nadolig i'w gosod ar draws Heol yr Wyddfa , rhwng Big Rock â'r caffi gyferbyn. Bydd Cyngor tref Porthmadog yn prynu'r goleuadau gan R.J. Electrics.

Goleuadau £2580.40
Gosod £ 531.76
 £3112.16 + TAW

Cyfanswm £3734.59

Mae costau ychwanegol o £395 + TAW am “Tensile Load Testing”.

Bydd cwmni ar wahân yn gorfod gwneud y prawf. Bydd yn costio £580.00 + TAW i brofi'r goleuadau newydd yn ogystal â'r hen rai. Bydd y Cyngor Tref yn talu am eu gosod ac am eu tynnu i lawr a bydd Cyngor Gwynedd yn helpu i osod y coed. Bydd Robot (mab Gareth Griffiths) yn ymgymryd â'r gwaith o osod y goleuadau.

Cytunwyd ar awgrym y Cyngh. Selwyn Griffiths y dylai'r pwyllgor ail-edrych a thrafod y mater eto yng nghyfarfod mis Ionawr er mwyn edrych ymlaen a threfnu tuag at Nadolig 2021.

Marian Roberts 23/10/20